# Adolygiad Dilynol o Reoli Gwastraff – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili


Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4976A2025

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Cipolwg ar yr archwiliad 4

Adroddiad manwl 7

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

Fe wnaethom asesu cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad ar reoli gwastraff yn 2023[1]. Yn 2023, canfuom fod y Cyngor yn deall pam fod ei berfformiad wedi dirywio ond ei fod wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â hyn ac, er bod y Cyngor wrthi'n datblygu strategaeth ddrafft, bod risgiau arwyddocaol o hyd i'w rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Fe wnaethom ddau argymhelliad a oedd yn canolbwyntio ar sut y dylai'r Cyngor fonitro a gwerthuso gwerth am arian ei strategaeth wastraff unwaith y byddai wedi cael ei chwblhau a sicrhau ei fod yn mynd ati'n llawn i gyfrifo costau a darparu adnoddau ar gyfer strategaeth hirdymor i allu cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu.

Yn yr adolygiad dilynol hwn, fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar berfformiad ailgylchu'r Cyngor.

## Pam fod hyn yn bwysig

Mae strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru – Tuag At Ddyfodol Diwastraff[2] – yn nodi ei pholisïau a thargedau lefel-uchel ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru. Rhan o'r strategaeth hon yw ei 'Chynllun Sector Trefol'[3] sy'n manylu ar ei dull argymelledig ar gyfer casglu gwastraff gan aelwydydd yng Nghymru, ynghyd â thargedau ailgylchu blynyddol statudol i'r Cyngor eu cyrraedd. Nid yw'r Cyngor wedi bod yn cyrraedd y targedau blynyddol hyn ers 2018-19 ac mae ei berfformiad ailgylchu blynyddol wedi gostwng mewn pump o'r chwe blynedd ddiwethaf yr adroddwyd arnynt. Mae'r Cyngor yn wynebu risg i'w enw da a risg ariannol o gael dirwy gan Lywodraeth Cymru am bob blwyddyn pan nad yw wedi cyrraedd y targed hwn.

Mae gan y Cyngor hefyd amcanion corfforaethol mewn perthynas â chynaliadwyedd a strategaeth ddatgarboneiddio sy'n gysylltiedig â'i allu i wella ei berfformiad ailgylchu.

## Ein casgliadau

**Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'n hadroddiad yn 2023 trwy ddatblygu strategaeth wastraff wedi'i chostio'n llawn, ond ceir risgiau arwyddocaol i'w rhoi ar waith ac nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyrraedd targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru tan 2030 gan wynebu'r risg o gael cosbau ariannol.**

[1] Archwilio Cymru, Rheoli Gwastraff yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Awst 2023


[2] Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Dogfen y Strategaeth Wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru, Mehefin 2010

[3] Llywodraeth Cymru, Glasbrint Casgliadau 2025, Mehefin 2025

## Yr hyn y mae'r data'n ei ddweud wrthym

Yn y flwyddyn ddiwethaf yr adroddwyd arni, sef 2023-24, roedd gan y Cyngor yr ail gyfradd ailgylchu isaf o'r holl Gynghorau yng Nghymru ac roedd yn un o ddim ond pedwar Cyngor na wnaethant gyrraedd targed Llywodraeth Cymru, sef 64%.

**Arddangosyn 1: canran y gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd, fesul Cyngor, 2023-24**





Ffynhonnell: StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae **Arddangosyn 2** yn dangos perfformiad ailgylchu'r Cyngor ers 2017-18. Mae cyfradd ailgylchu'r Cyngor wedi gostwng ym mhump o'r chwe blynedd yr adroddwyd arnynt ac nid yw wedi cyrraedd targed statudol Llywodraeth Cymru am y pum mlynedd ddiwethaf yr adroddwyd arnynt. Dirywiodd perfformiad y Cyngor yn y pedair blynedd olynol cyn iddo wneud ymrwymiad i Lywodraeth Cymru y byddai'n adolygu'r gwasanaeth.

Datblygwyd strategaeth newydd y Cyngor ym mis Hydref 2023. Mae'r Cyngor wedi rhagweld gwelliant yn ei berfformiad ailgylchu ar gyfer 2024-25, ond nid yw'r data yma wedi cael ei gadarnhau na'i gyhoeddi ar adeg ein hadroddiad ni.


**Arddangosyn 2: canran y gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd dros amser yng Nghaerffili**




Ffynhonnell: StatsCymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae **Arddangosyn 3** yn dangos y gwariant y pen ar wasanaethau gwastraff gan gynghorau yn 2023-24. Caerffili oedd â'r chweched gwariant isaf y pen ar wasanaethau gwastraff yng Nghymru ac roedd islaw cyfartaledd Cymru.

**Arddangosyn 3: gwariant y pen ar wasanaethau gwastraff fesul cyngor, 2023-24**




Ffynhonnell: StatsCymru, Llywodraeth Cymru

# Adroddiad manwl

## Y cyfnod cyn ein hadroddiad blaenorol/cefndir

Yn 2017-18, roedd perfformiad ailgylchu'r Cyngor yn dda, ac yntau'n cyflawni cyfradd ailgylchu o 66.7%, y bedwaredd uchaf yng Nghymru ac ymhell uwchlaw targed statudol Llywodraeth Cymru bryd hynny, sef 60%.

Ers 2017-18, mae perfformiad ailgylchu'r Cyngor wedi dirywio mewn pump o'r chwe blynedd yr adroddwyd arnynt ac mae bellach yr ail isaf yng Nghymru. Mae cyfradd ailgylchu'r Cyngor wedi gostwng 6.5 pwynt canran rhwng 2017-18 a 2023-24, yr ail ddirywiad mwyaf o'r holl gynghorau yng Nghymru.

Ar adeg ein hadroddiad blaenorol, nid oedd cyfundrefn casglu gwastraff y Cyngor yn cynnwys casglu gwastraff wedi'i ddidoli ar garreg y drws ac roedd yn cael ei rhwystro gan faterion halogi. Mae'r Cyngor wedi bod yn trin ei wastraff bwyd a gwyrdd ar wahân yn unol â Phatrwm Llywodraeth Cymru ar gyfer Casglu [4] ers 2016, ond nid yw ei drefniadau ar gyfer casglu gwastraff arall i'w ailgylchu'n cydymffurfio â'r Patrwm ar gyfer Casglu.

Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom adrodd ar berfformiad gwastraff yng Nghaerffili[5] ac fe ganfuom nad oedd y gwasanaeth wedi cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru am dair blynedd yn olynol a'i fod wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â'r perfformiad hwn. Hefyd, roedd risgiau arwyddocaol i roi ei strategaeth wastraff ddrafft ar waith yn llwyddiannus.

## Yr hyn a ganfuom yn awr

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gennym yn ein hadroddiad yn 2023. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhoi strategaeth gwastraff ac ailgylchu ar waith sydd wedi'i chostio ac yn cael ei hariannu'n llawn;
- rhoi newidiadau i'w gyfundrefn casgliadau ar waith;
- rhoi proses ar waith ar gyfer ymgysylltu â thrigolion i'w hannog i newid ymddygiad mewn perthynas â chasgliadau ar garreg y drws; a
- datblygu ffynonellau data newydd i ddeall yn well sut y mae trigolion yn defnyddio gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, ni allwn asesu effaith y strategaeth gwastraff ac ailgylchu yn llawn eto. I lwyddo a gwella lefelau ailgylchu, mae angen i nifer o gamau gweithredu ar raddfa fawr gyda therfynau amser tynn oll gael eu datblygu a'u cyflawni ar amser. Ni fydd llawer o'r elfennau o'r seilwaith hanfodol yn eu lle tan yn hwyr yn oes y strategaeth. Mae risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig â rhoi strategaeth y Cyngor ar waith. Rydym yn ymdrin â'r rhain mewn mwy o fanylder isod ynghyd â throsolwg o gynnydd y Cyngor hyd yma.

[4] Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Dogfen y Strategaeth Wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru, Mawrth 2011

[5] Archwilio Cymru, Rheoli Gwastraff yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Awst 2023

Fe fabwysiadodd y Cyngor ei strategaeth ym mis Hydref 2024, ac fe'i datblygwyd gan ddefnyddio gwerthusiad o'r gwasanaethau a gwblhawyd gyda phartneriaid allanol, ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r strategaeth wedi'i chostio a'i hariannu'n llawn trwy grant gan Lywodraeth Cymru a benthyciad am 25 mlynedd y mae'r Cyngor wedi'i gymryd gydag ad-daliadau o £1.4 miliwn y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) wrth iddo roi ei strategaeth ar waith, gydag achos busnes amlinellol cymeradwy ac achos busnes llawn wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'n aros i glywed a fydd yn cael dirwy am beidio â chyrraedd targedau ailgylchu statudol. Pe bai'r Cyngor yn cael dirwy gan Lywodraeth Cymru am ei berfformiad gwael, byddai hyn yn dargyfeirio arian i ffwrdd oddi wrth gymorth i ddarparu gwasanaethau ar adeg pan fo cyllidebau dan bwysau cynyddol.

Mae'r broses o ddatblygu'r strategaeth a'i rhoi ar waith hyd yma wedi bod yn cael ei chefnogi gan weithgor trawsbleidiol o Aelodau. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn effeithiol o ran darparu goruchwyliaeth a her wleidyddol ar gyfer pob cam o'r broses o ddatblygu'r strategaeth.

Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfuniad o amcanion a chamau gweithredu byrdymor, a nod y Cyngor yw cyrraedd targed statudol Llywodraeth Cymru, sef ailgylchu 70% erbyn 2030. Mae'r strategaeth a'r map trywydd yn cynnwys manylion ystod o gamau gweithredu a fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddeilliannau strategol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Prynu, trwyddedu a datblygu depo a chyfleuster ailgylchu newydd ar gyfer rheoli gwastraff.
- Prynu a chyflwyno fflyd o gerbydau allyriadau isel iawn.
- Cyflwyno cyfundrefn casglu gwastraff newydd, gan newid y gofynion a osodir ar drigolion a mynychder casgliadau gwastraff gweddillol a gwastraff o'r ardd. (Bydd gwastraff i'w ailgylchu a gwastraff bwyd yn dal i gael eu casglu'n wythnosol.)

Nid yw'r camau gweithredu hyn wedi'u bwriadu i gael eu cwblhau tan 2028. Mae strategaeth y Cyngor yn nodi ymrwymiad i gydymffurfio â phatrwm Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu, ond nid yw'r Cyngor wedi cytuno ar gamau gweithredu i ategu hyn eto. Mae un cam gweithredu o'r fath yn cynnwys lleihau mynychder ei gasgliadau gwastraff gweddillol. Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod materion ychwanegol a allai effeithio ar y camau gweithredu hyn hefyd, gan gynnwys yr angen i:

- brynu tir ychwanegol ar bwys safle'r depo presennol i wneud lle i'r newidiadau arfaethedig; a
- chael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r depo.

Mae gan y Cyngor gynllun cyfathrebu a swyddog cyfathrebu wedi'i neilltuo i helpu i hysbysu trigolion ynghylch newidiadau i gasgliadau yn y dyfodol a gwella ymddygiad ailgylchu. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar agweddau ar newid ymddygiad, fel addysgu trigolion am halogi gwastraff bwyd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi datblygu ei raglen ehangach ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â thrigolion yn llawn, yn unol â'i strategaeth. Bydd hyn yn allweddol o ystyried canfyddiadau ymgynghoriad cyhoeddus y Cyngor. Er bod trigolion wedi cefnogi amcanion strategol y Cyngor ar gyfer lleihau gwastraff a gwella cynaliadwyedd, roedd 57% o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai newid i wahanu deunyddiau sych i'w hailgylchu ar garreg y drws yn cael effaith negyddol ar aelwydydd ac roedd 60% o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai gostyngiad ym mynychder

casgliadau gwastraff gweddillol a gwastraff o'r ardd yn cael effaith negyddol ar aelwydydd.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd rhai camau cyflym ymlaen, gan gynnwys ymgysylltu â thrigolion a darparu leininau ar gyfer cadis cegin i wella cyfraddau ailgylchu bwyd a lleihau halogi gwastraff gweddillol. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud gwelliannau yn ei ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys darparu adnoddau ychwanegol yn ei ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref i gynorthwyo pobl sy'n dod â bagiau bin i ddidoli'r cynnwys, i gynyddu cyfraddau ailgylchu i'r eithaf wrth iddynt fynd i mewn i'r safleoedd. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwella cynlluniau'r safleoedd ac mae'n cynyddu'r adnodd staff i gynnig arweiniad i drigolion. Bydd y risg o beidio â chyflawni ei amcanion strategol yn cynyddu os na fydd y gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu arfaethedig yn gallu dylanwadu ar ymddygiad trigolion o ran ailgylchu a'r newidiadau arfaethedig i fynychder casgliadau.

Mae'r strategaeth wastraff yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn monitro perfformiad, trwy gyfuniad o fesurau perfformiad gwasanaethau a sefydlu Gweithgor Perfformiad. Fodd bynnag, canfuom nad yw'r Cyngor wedi adnabod targedau ar gyfer rhai o'i fesurau perfformiad eto ac nad yw'r mesurau perfformiad yn cynnwys yr holl gerrig milltir. Gallai hyn effeithio ar allu'r Cyngor i fonitro perfformiad ac effaith ei strategaeth yn effeithiol yn y tymor byr a chanolig.

Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r strategaeth yn cyd-fynd â phrosesau craffu a monitro rheolaidd y Cyngor. Ym mis Chwefror 2025, fe leihaodd y Cyngor y sgôr yn ei gofrestr risgiau corfforaethol ar gyfer y strategaeth wastraff a pherfformiad ailgylchu o uchel i ganolig, gan nodi bod rhoi'r strategaeth ar waith a chael cyllid grant gan Lywodraeth Cymru'n ddau reswm a gyfrannodd at hynny. Mae cofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor hefyd yn amlygu'r effaith negyddol bosibl ar ei uchelgeisiau carbon sero net os na fydd ei gyfraddau ailgylchu'n gwella.

Rydym yn nodi, yn y 12 mis rhwng mis Mai 2024 ac ysgrifennu'r adroddiad hwn, bod dwy eitem ar yr agenda a oedd yn ymwneud â'r strategaeth (adborth ar yr ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd ac adroddiad ar brynu eiddo i hwyluso'r broses o gyflawni'r strategaeth) wedi cael eu gweld gan y Cabinet. Mae dwy eitem (yr adborth ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ac adroddiad ar wella ymddygiad ailgylchu) wedi cael eu gweld gan y Pwyllgor Craffu Tai a'r Amgylchedd.

Er bod cryn dipyn o'r gweithgarwch craffu hyd yma wedi canolbwyntio ar effaith newidiadau i'r gwasanaethau ar drigolion, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod y modd y mae'n monitro'r strategaeth yn briodol ar gyfer rhaglen newid mor arwyddocaol. Fel rhan o drefniadau monitro cadarn, bydd angen i aelodau fod â rôl allweddol o ran goruchwylio'r broses o roi'r strategaeth wastraff ar waith, gan sicrhau bod ffocws parhaus ar fonitro perfformiad a risg. Bydd y dull hwn yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei amcanion strategol a'i amcanion llesiant corfforaethol ac yn sicrhau bod trigolion ac aelodau'n ymwybodol o risgiau peidio â chyflawni'r amcanion hyn.

## Crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn pob un o’r argymhellion a godwyd yn ein hadroddiad yn 2023

**Arddangosyn 4: crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn y ddau argymhelliad a godwyd yn ein hadroddiad yn 2023**

**Argymhelliad 1 – Dylai’r Cyngor nodi sut y bydd yn monitro ac yn gwerthuso gwerth am arian ei strategaeth wastraff ar ôl ei chwblhau a chyfraniad y strategaeth at Amcanion Llesiant y Cyngor.**

**Statws – Argymhelliad wedi’i roi ar waith yn rhannol**

- Mae’r Cyngor wedi nodi’r hyn y bydd yn ei fesur i ddeall effaith ei strategaeth, ond nid yw’r mesurau hyn yn cynnwys targedau na cherrig milltir tymor byr a chanolig yn y strategaeth.
  - Mae’r Cyngor wedi nodi sut y bydd yn monitro ac yn adolygu cynnydd yn erbyn y strategaeth, ond mae’n rhy gynnar i asesu a yw’r prosesau hyn yn ddigonol.
  - Mae’r gweithgor trawsbleidiol o Aelodau, a sefydlwyd i roi cymorth i ddatblygu’r strategaeth, yn dal i weithredu a rhoi her a chymorth i roi’r strategaeth ar waith.
  - Nid yw’r Cyngor wedi nodi sut y mae’n bwriadu rhoi ei ymgyrch i newid ymddygiad y cyhoedd, sy’n rhan allweddol o’r strategaeth, ar waith.
  - Nid yw’r Cyngor wedi dangos sut y bydd yn mesur cyfraniad y strategaeth at amcanion llesiant ehangach.
  - Canfuom dystiolaeth bod rhywfaint o wrthwynebiad i newid dulliau casglu gwastraff y Cyngor, sydd wedi effeithio ar gyflymder y broses benderfynu a’r broses o roi gwelliannau i’w wasanaethau gwastraff ar waith.
  - Nid yw’r Cyngor wedi cyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru am y pum mlynedd ddiwethaf yr adroddwyd arnynt (2018-19 i 2023-24) ac mae’n bosibl mai felly y bydd hi’n dal i fod am y pedair blynedd nesaf hefyd. Mae’r Cyngor yn wynebu risg i’w enw da a risg ariannol o gael dirwyon cronnus gan Lywodraeth Cymru, nad yw wedi cyllidebu ar eu cyfer. Mae’r rhwymedigaeth o ran dirwyon ar gyfer 2019-20 a 2022-23 yn unig yn £2.106 miliwn.
  - Bydd perfformiad ailgylchu gwael parhaus yn golygu bod risg na fydd y Cyngor yn cyflawni rhai o’i amcanion corfforaethol a datgarboneiddio.

**Arddangosyn 4: crynodeb o gynnydd y Cyngor yn erbyn y ddau argymhelliad a godwyd yn ein hadroddiad yn 2023**

**Argymhelliad 2 – Dylai'r Cyngor ddatblygu a chytuno ar strategaeth wastraff tymor hwy sydd wedi'i chostio a'i hariannu'n llawn, a all gyrraedd y targedau statudol presennol ac yn barod ar gyfer y cynnydd posibl mewn targedau statudol yn y dyfodol.**

**Statws – Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol**

- Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth wastraff sydd â sylfaen dystiolaeth gadarn ac mae wedi ei rhoi ar waith. Cafodd y strategaeth ei chostio'n llawn ac mae bellach yn cael ei hariannu'n llawn am ei hoes gyfan.
- Mae'r Cyngor wedi bod yn araf yn cymeradwyo ei strategaeth ac mae cyflymder y newid yn golygu nad yw'r Cyngor yn disgwyl cyrraedd targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru tan 2028 ar y cynharaf. Roedd yr achos busnes amlinellol ar gyfer y strategaeth wastraff yn nodi mai 2030 oedd y dyddiad targed a bennwyd. Nid yw newidiadau mawr o ran cyfalaf a seilwaith i roi'r strategaeth ar waith yn dod ar-lein tan 2027 ac nid oes bwriad i wneud unrhyw newidiadau i'r gyfundrefn casgliadau tan y dyddiad hwn.
- Mae'r Cyngor wedi cymryd rhai camau cyflym ymlaen, megis cyflwyno rhaglen i ddarparu leininau ar gyfer cadis gwastraff bwyd a gwelliannau yn ei ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, y rhagwelir y byddant yn gwella ei berfformiad ailgylchu yn 2024-25. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno technoleg newydd a fydd yn ei helpu i ddeall sut y mae trigolion yn ymgysylltu â chasgliadau ac ailgylchu ar garreg y drws, ac yn defnyddio'r gwasanaethau hyn. Mae'r dechnoleg hon yn datblygu data newydd a allai helpu'r Cyngor i dargedu ei ymyriadau ac adnoddau addysg mewn modd sy'n ei gwneud yn bosibl cael yr effaith fwyaf.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.